# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideo gynadledda dros Zoom**

Dyddiad: 21 Tachwedd 2024

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCGG@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.00 - 09.15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.15)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.15 - 09.30)

**2.1 Llythyr gan Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth - Llywodraeth Cymru at Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch teithio llesol**

(Tudalennau 1 - 12)

**2.2 Llythyr gan Tim Moss, Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Prif Swyddog Gweithredu Llywodraeth Cymru at y Cadeirydd yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 17 Hydref 2024**

(Tudalennau 13 - 14)

## Egwyl (09.30 - 09.35)

## 3 Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre: sesiwn dystiolaeth gydag uwch gynrychiolwyr

(09.35 - 09.50) (Tudalennau 15 - 39)

Carl James, Prif Weithredwr dros dro - Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Lauren Fear, Cyfarwyddwr Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol dros dro Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Matt Bunce, Cyfarwyddwr Gweithredol dros Gyllid – Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Briff ymchwil

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(09.50)

## 5 Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre: sesiwn dystiolaeth gydag uwch gynrychiolwyr (wedi'i barhau yn breifat)

(09.50 – 11.05)

## 6 Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre: trafod y dystiolaeth

(11.05 – 11.20)

## 7 Cod y Gweinidogion: trafod y llythyr

(11.20 – 11.40) (Tudalennau 40 – 50)

Briff Ymchwil

Llythyr drafft

**Grŵp yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth**
**Economy, Energy and Transport Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

7 Tachwedd 2024

Annwyl Adrian

Diolch am eich adroddiad diweddar ar deithio llesol yng Nghymru. Mae'n bleser cael amgáu ein hymateb manwl i'r argymhellion a wnaed i Lywodraeth Cymru.

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yw'r mynegiant o'r ymrwymiad i wneud cerdded, olwynio a beicio yn ddewis diogel a hawdd ar gyfer teithiau byrrach bob dydd, p'un ai i'r ysgol, i'r gwaith neu i gyrraedd siopau a gwasanaethau. Mae cerdded yn enwedig yn rhan allweddol o bron pob taith trafnidiaeth gyhoeddus hefyd, ac mae gwella'r amodau ar gyfer y dulliau hyn yn gam pwysig i'n helpu i gyflawni ein targed sero net.

Dechreuwyd y daith hon gennym o ddechrau stond ac roedd y blynyddoedd cynnar ar ôl i'r Ddeddf gael ei chreu yn canolbwyntio ar greu'r sylfeini ar gyfer y gwelliannau y mae angen i ni eu gweld. Ers 2018 mae Gweinidogion Cymru wedi cynyddu’r buddsoddiad mewn seilwaith ac mae eich adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith ein bod wedi buddsoddi £218 miliwn drwy'r Gronfa Teithio Llesol mewn cynlluniau o dan arweiniad awdurdodau lleol ledled Cymru. Er bod hyn yn lefel sylweddol o gyllid yr ydym yn falch ohoni, mae'n golygu bod Llywodraeth Cymru hyd yma wedi buddsoddi ychydig llai na £70 y pen dros gyfnod o chwe mlynedd y gronfa. Mae cysylltu clytwaith cyfyngedig y seilwaith presennol i rwydwaith cydlynol sy'n gwasanaethu anghenion teithio pobl yn cymryd amser a byddai'n afrealistig disgwyl i'r lefel hon o gyllid fod eisoes wedi arwain at drawsnewid pellgyrhaeddol o ran dewisiadau teithio.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cymryd camau sylweddol i gryfhau'r dull o ddarparu cynlluniau ac ymyriadau teithio llesol ar lefel genedlaethol a lleol. Drwy feithrin arbenigedd a chapasiti mewnol Trafnidiaeth Cymru, rydym wedi gallu dechrau cefnogi awdurdodau lleol a'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn fwy effeithiol ac ymarferol. Mae hyn yn amrywio o gyngor manwl ar gynlluniau drwy gydol eu camau datblygu, i ddatblygu offeryn blaenoriaethu sy'n seiliedig ar dystiolaeth, cyflwyno rhaglenni hyfforddi a datblygu pecyn cymorth hyrwyddol.

Mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid hefyd wedi cymryd camau breision i wella'r amodau sy'n caniatáu i fwy o blant a phobl ifanc yng Nghymru deithio i'r ysgol yn ddiogel ac yn egnïol. Mae gwelliannau seilwaith o amgylch ysgolion yn cael eu cyfuno â rhaglenni cyflenwol, ac rydym yn dechrau gweld canlyniadau trawiadol mewn rhai ysgolion. Rydym wedi ymrwymo i



Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

gryfhau cydlynu ac alinio ein gwaith yn y maes hwn ymhellach, er mwyn galluogi mwy o blant i elwa o'r cyfle i gerdded, olwynio neu feicio i'r ysgol.

Mae eich adroddiad yn tynnu sylw at brinder cymharol data ac mae'r pump cyntaf o'ch argymhellion yn ymwneud â sut y gallwn wella hyn. Rydym yn cydnabod bod diffyg data yn effeithio nid yn unig ar ein gallu i fesur effaith ein polisi teithio llesol, ond ar ein polisi trafnidiaeth a'n rhaglenni yn gyffredinol.
Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym wedi bod yn gweithio ar ddatblygu Arolwg Teithio Cenedlaethol ers sawl blwyddyn, ac ar hyn o bryd rydym yn cynnal yr ail arolwg peilot. Bydd data o'r arolwg newydd yn allweddol wrth fonitro teithio llesol yn ogystal â dulliau eraill. Bydd ein Fframwaith Monitro Cenedlaethol ar gyfer teithio llesol yn defnyddio hyn ac ystod eang o ffynonellau data eraill, ac yn cael ei ategu gan ymdrechion i sicrhau bod monitro ar y lefel leol yn dod yn fwy cyson.

Byddwn yn bwrw ymlaen â'ch argymhellion ochr yn ochr â'r set gynhwysfawr o gamau gweithredu yr ydym eisoes wedi'u nodi yn ein Cynllun Cyflawni Teithio Llesol, a gyhoeddwyd gennym yn gynharach eleni ac rydym o'r farn bod hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa dda i wneud cynnydd pellach.

Yn gywir,

**ANDREW SLADE**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Grŵp yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth

# Ffurflen ymateb rheolaethol



**Teitl adroddiad:** Teithio llesol

**Dyddiad cwblhau:** Hydref 2024

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb rheolaethol<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol am ba weithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai Llywodraeth Cymru fynegi set gyfunol o ddangosyddion a thargedau teithio llesol hirdymor, gyda cherrig milltir cyflawni. Dylai'r rhain gynnwys deilliannau ehangach na dim ond cyfraddau teithio llesol yng nghyd-destun uchelgeisiau ei strategaeth drafnidiaeth, y nodau llesiant ehangach i Gymru, a chyfraniadau disgwyliedig o feysydd polisi/rhaglen ehangach. | Derbyn.<br>Rydym wedi nodi yn ein Cynllun Cyflawni Teithio Llesol ein hymrwymiad i bennu targedau teithio llesol. Gwnawn hynny, a chynnwys cerrig milltir ar gyfer cyflawni, pan fydd y set gyntaf o ddata o'r Arolwg Teithio Cenedlaethol (NTS) wedi dod i law. Mae gennym Fframwaith Monitro Cenedlaethol drafft ar gyfer Teithio Llesol, sydd reng yn is na Fframwaith Monitro Strategaeth Trafnidiaeth Cymru. Mae'n cynnwys ystod eang o ddangosyddion o nifer o ffynonellau cysylltiedig â theithio llesol. Caiff ei gaboli ymhellach unwaith y bydd yr NTS yn weithredol. | Hydref 2026, pan fydd data NTS ar gael | Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi Trafnidiaeth |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb rheolaethol<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol am ba weithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | Er ein bod yn annhebygol o allu defnyddio dangosyddion ehangach mewn meysydd heblaw trafnidiaeth a theithio i gadarnhau cysylltiad rhwng cyflawni'r cynllun teithio llesol a mesurau llesiant ehangach, byddwn yn ystyried effeithiau ehangach gymaint â phosibl. | | |
| A2 | I roi cymorth i fonitro yn erbyn dangosyddion a thargedau sy'n gysylltiedig â theithio llesol, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn casglu data cyson dros amser sy'n ei gwneud yn bosibl dadansoddi tueddiadau hirdymor a, lle y bo'n ymarferol, dwyn cymhariaeth ledled y DU ar fesurau allweddol. | Derbyn<br>Bydd yr Arolwg Teithio Cenedlaethol yn cymryd lle Arolwg Cenedlaethol Cymru (NSfW), sef ein dull presennol o gasglu data am deithio llesol o ran dadansoddi tueddiadau a monitro tymor hir. Bydd yn casglu data am ystod ehangach o fesurau ac yn darparu mwy o wybodaeth. A bydd y cwestiynau teithio llesol i oedolion yn cael eu newid ychydig, er na fydd yn casglu data am daith plant i'r ysgol. Bydd angen defnyddio ffynonellau eraill ar gyfer hynny, fel Arolwg Dwylo i Fyny ar gyfer plant ysgolion cynradd a | Hydref 2026, pan fydd data NTS ar gael | Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi Trafnidiaeth |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb rheolaethol<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol am ba weithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | data Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion ar gyfer plant ysgolion uwchradd. Er bod hyn yn golygu na fydd modd cymharu'r data newydd yn uniongyrchol â data'r NSfW, nid yw'r data hwnnw ei hun wedi bod yn gwbl gyson dros amser oherwydd newid maint y sampl, dulliau arolygu yn sgil y pandemig, pa mor aml y mae'n cael ei gynnal a newid geiriad cwestiynau ynghyd â bylchau yn yr wybodaeth pan na chafodd ei gynnal. Byddwn yn ystyried cyfleoedd i ddatblygu mesurau cymharu ar lefel y DU er rhaid nodi nad yw data am deithio llesol gwledydd y DU yn gyson chwaith, gan fod pob gwlad wedi datblygu'i chwestiynau ei hun. | | |
| A3 | Wrth iddi gwblhau cynlluniau ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol newydd, dylai Llywodraeth Cymru ailarfarnu costau a manteision casglu digon o ddata i ategu gwaith ystyrlon i ddadansoddi a chraffu ar | Derbyn.<br>Byddwn yn ailarfarnu'r costau a'r manteision. Os yw cyfyngiadau ariannol yn golygu nad yw'n debygol y caiff data ei ddadansoddi ar y lefel | Ionawr 2025 | Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a |

Tudalen y pecyn 6

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb rheolaethol<br>**Nodwch yma sylwadau perthnasol am ba weithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion** | Dyddiad cwblhau<br>**Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau** | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | gyfraddau teithio llesol ar lefel awdurdodau lleol. | leol yn rhannau cynta'r Arolwg Teithio Cenedlaethol, byddwn er hynny'n ceisio cyfleoedd i gasglu data is-genedlaethol, ar lefel yr awdurdod lleol a/neu ranbarth, hynny o gofio rôl gynyddol Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'u cyfrifoldebau am ddatblygu a chynnal Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.<br>Gallai fod yn bosib dangos data ar lefel is-genedlaethol trwy agregu sawl blwyddyn o ddata. | | Pholisi Trafnidiaeth |
| **A4** | Wrth ddatblygu fframwaith monitro a gwerthuso newydd a darparu arweiniad newydd i awdurdodau lleol, dylai Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru egluro'r disgwyliadau ynghylch pennu amcanion a fframwaith cymesur, ond mwy cyson, ar gyfer adrodd ar fanteision sy'n ymestyn y tu hwnt i newidiadau mewn | Derbyn.<br>Rydym yn gweithio ar hyn gyda Trafnidiaeth Cymru sydd wedi rhoi canllawiau monitro lleol drafft i awdurdodau lleol er mwyn cysoni data a gesglir ar lefel leol. Byddwn yn adolygu hyn eto ar ôl ystyried yr wybodaeth a geir yn yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol mwyaf diweddar ar lefel cynllun, o fis Medi 2024 a'r | Ebrill 2025 | Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi Trafnidiaeth a swyddog arwain o Trafnidiaeth Cymru |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb rheolaethol<br>**Nodwch yma sylwadau perthnasol am ba weithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion** | Dyddiad cwblhau<br>**Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau** | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | cyfraddau teithio llesol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, effeithiau ar lygredd aer yng nghyd-destun dyletswyddau adrodd newydd yn hynny o beth. | Adroddiadau Blynyddol y mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn gofyn amdanynt, a gaiff eu cyflwyno yn Hydref 2024.<br>Bydd hyn yn cynnwys disgwyliadau clir ynghylch pennu amcanion yn ogystal â sut y gellir sicrhau manteision ehangach. Bydd y gwaith a wneir ar gyfer monitro teithio llesol lleol yn bwydo'r gwaith ar ddatblygu fframweithiau monitro ar gyfer y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol sydd wrthi'n cael eu paratoi. | | |
| **A5** | Gan adeiladu ar y fframwaith monitro a gwerthuso newydd ac adroddiadau gan awdurdodau lleol, dylai Llywodraeth Cymru newid yn ôl i gyhoeddi adroddiad blynyddol llawnach ar deithio llesol. Fel lleiafswm, dylai'r adroddiad gwmpasu a/neu gyfeirio at y canlynol: | Derbyn.<br>Byddwn am dreialu fformat a awgrymwyd ar gyfer yr adroddiad blynyddol gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael o 2023-24.<br>Fodd bynnag, dylid nodi, oherwydd y bwlch gwybodaeth yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 23-24, ni fydd data newydd am gyfraddau teithio lleol o'r ffynhonnell hon a bydd bwlch | Ebrill 2025, i ymgorffori ffurflenni adrodd awdurdodau lleol, a gyflwynwyd yn hydref 2024 | Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi Trafnidiaeth |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb rheolaethol<br>**Nodwch yma sylwadau perthnasol am ba weithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion** | Dyddiad cwblhau<br>**Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau** | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | • Tystiolaeth sy'n ymwneud ag ymddygiad teithio llesol ar lefel genedlaethol a lleol;<br>• data ar wariant o'i gymharu â dyraniadau ar gyfer meysydd allweddol lle ceir gwariant ar deithio llesol, dadansoddi cyllid cyfatebol awdurdodau lleol a, lle y bo'n ymarferol, cyfraniadau o raglenni eraill ym maes trafnidiaeth a'r tu hwnt;<br>• cynnydd gyda chamau gweithredu yn y cynllun cyflawni teithio llesol, gan gynnwys mentrau newid ymddygiad;<br>• cynnydd gyda chyflawni cynlluniau ac ehangu rhwydweithiau; a<br>• thystiolaeth ynglŷn â sut y mae buddsoddi mewn teithio llesol yn cyfrannu at nodau strategol ehangach | hefyd ar gyfer 2025-26, oherwydd bydd oedi o ran casglu data NSfW ar ôl 2024-25. Bydd data ar gael ar gyfer 2024-25. | | |

Tudalen y pecyn 8

Tudalen y pecyn 9

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb rheolaethol<br>**Nodwch yma sylwadau perthnasol am ba weithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion** | Dyddiad cwblhau<br>**Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau** | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A6** | Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei fframwaith asesu a chyllido newydd i ategu adolygiadau cyfnodol o allu, cynlluniau a chyflawni ym maes teithio llesol gan awdurdodau lleol. Wedyn dylai adrodd yn dryloyw ar ganlyniad yr adolygiadau hynny. | Derbyn.<br>Rydym wedi dechrau gweithio ar fframwaith asesu ar gyfer awdurdodau lleol, gan droi at berfformiad cynlluniau teithio lleol yn y gorffennol a ffactorau eraill.<br>Bydd hyn yn bwydo'r gwaith o ddatblygu fframwaith cyllido newydd ar gyfer Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, gan ddod yn rhan ohono fwy na thebyg, wrth i ni droi oddi wrth gynlluniau grant trafnidiaeth lleol sy'n cael eu gweinyddu bob yn un ac sy'n sector benodol. Byddwn yn adrodd yn dryloyw am y canlyniadau. | Gwanwyn 2026 | Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi Trafnidiaeth |
| **A7** | I reoli risgiau posibl mewn perthynas â dyblygu cyllid cyhoeddus a gwrthdaro buddiannau mewn perthynas â gweinyddu'r Gronfa Teithio Llesol: | Derbyn.<br>Bydd Trafnidiaeth Cymru yn nodi yn eu gweithdrefnau gweithredu ar gyfer y Gronfa y mesurau diogelu cryfach sydd i'w rhoi ar waith i osgoi gogwydd wrth arfarnu ceisiadau am arian | Rhagfyr 2024, yn barod ar gyfer y cylch arfarnu cyllid nesaf | Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi Trafnidiaeth a |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb rheolaethol<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol am ba weithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | a) dylai Trafnidiaeth Cymru asesu cyfleoedd i fynd ati ymhellach i gryfhau mesurau diogelu mewn perthynas â chynnwys swyddogion Sustrans, ochr yn ochr â'i swyddogion ei hun, mewn gwaith i arfarnu cynigion i'r Gronfa Teithio Llesol.<br><br>b) dylai Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth eglur am unrhyw waith y gallai Sustrans fod yn ymwneud ag ef ar lefel awdurdodau lleol sy'n cysylltu'n ôl â'r Gronfa Teithio Llesol. | ar gyfer teithio llesol. Bydd y mesurau diogelu hefyd yn cael eu hadolygu'n barhaus i sicrhau eu bod yn ddigon cryf.<br>Mae Sustrans wedi addo y byddan nhw'n ein diweddaru ni a Trafnidiaeth Cymru am unrhyw waith y byddan nhw'n ei wneud ar ran awdurdodau lleol. | | swyddog arwain o Trafnidiaeth Cymru |
| A8 | Dylai Llywodraeth Cymru ddyfeisio strategaeth gyllido amlflwyddyn, dymor hwy i roi mwy o sicrwydd a sefydlogrwydd i awdurdodau lleol lle mae cyllid teithio llesol yn y cwestiwn. Dylai'r strategaeth fyfyrio ynghylch y cydbwysedd ar y cyfan rhwng | Derbyn.<br>Rydym yn gweithio gyda Chyd-bwyllgorau Corfforedig i ddatblygu'u Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a'u Cynlluniau Cyflawni 5 mlynedd cysylltiedig. Yn unol â'n strategaeth gyllido, byddwn yn neilltuo arian cyfalaf a refeniw iddynt | Gwanwyn 2026 | Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi Trafnidiaeth |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb rheolaethol<br>**Nodwch yma sylwadau perthnasol am ba weithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion** | Dyddiad cwblhau<br>**Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau** | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith, gan gynnwys y rhaniad rhwng cyllid craidd a chyllid cynllun-benodol ar gyfer y Gronfa Teithio Llesol, a chyllid refeniw ar gyfer gweithgareddau eraill megis mentrau newid ymddygiad. Dylai hefyd gynnwys manylion sut y bydd adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer camau gweithredu yn y cynllun cyflawni teithio llesol. | o 2026-27, yn lle trwy gynlluniau grant ar wahân fel y Gronfa Teithio Llesol. Byddwn yn esbonio o ble daw'r arian i fuddsoddi mewn teithio llesol ar lefel rhanbarth a gwlad fel rhan o'r broses hon. Bydd dyraniadau cyllid ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn ddangosol pan fo hynny'n angenrheidiol i gydymffurfio â gweithdrefnau cyllideb Llywodraeth Cymru a'r Senedd. | | |
| **A9** | Dylai Llywodraeth Cymru bennu'r gofynion lleiaf a fydd yn golygu, os na ddangosir tystiolaeth foddhaol ohonynt, na fydd cynigion i'r Gronfa Teithio Llesol ar gyfer prif gynlluniau seilwaith yn cael eu cymeradwyo beth bynnag fo'u sgôr a'u safle yn y drefn restrol ar y cyfan. Dylai'r | Derbyn<br>Rhoddwyd hyn ar waith ar gyfer rownd ymgeisio 2025-26 ac mae wedi'i gynnwys yn y canllawiau newydd. Nodwyd eisoes yng Nghanllawiau'r Gronfa Teithio Llesol ar gyfer 2024-25 y byddai cwblhau ystod o gamau ymlaen llaw, gan gynnwys Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb, cynllun Monitro a Gwerthuso ac ymgysylltu | Wedi'i gwblhau | Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi Trafnidiaeth a swyddog arwain o Trafnidiaeth Cymru |

Tudalen y pecyn 11

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb rheolaethol<br>**Nodwch yma sylwadau perthnasol am ba weithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion** | Dyddiad cwblhau<br>**Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau** | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | gofynion lleiaf hyn gynnwys asesu'r effaith ar gydraddoldeb. | penodol i'r cynllun yn dod yn ofyniad gorfodol o 2025-26 ymlaen. Mae'r canllawiau newydd yn nodi'r gofyniad ar gyfer Arfarniad Llesiant Integredig, sy'n cynnwys yr asesiadau effaith rheoleiddiol, gan gynnwys Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb. | | |
| **A10** | Dylai Llywodraeth Cymru gwblhau adolygiad cynhwysfawr o'r Ddeddf ers ei rhoi ar waith yn unol â'r cwmpas a ragwelwyd pan basiwyd y Ddeddf. Dylai gynnwys partneriaid cyflawni eraill a chynnwys ystyriaeth i effaith mapiau rhwydwaith teithio llesol ar y cyfan ac i ba raddau y maent yn ategu ymwybyddiaeth y cyhoedd o lwybrau teithio llesol. | Derbyn<br><br>Byddwn yn cwblhau adolygiad o'r Ddeddf erbyn mis Gorffennaf 2025. Byddwn yn cynnal adolygiad pellach o fewn pum mlynedd. | Gorffennaf 2025 | Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi Trafnidiaeth |

Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau
Corporate Services and Inspectorates

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddu Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ein Cyf/Our Ref: 241106/PBU/TM

8 Tachwedd 2024

Annwyl Mr Isherwood,

**Penodiadau Cyhoeddus**

Yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddu Cyhoeddus ar 17 Hydref, ymrwymais i ysgrifennu at y Pwyllgor i gadarnhau'r data a gasglwyd yn unol ag Action 1.1 o'r strategaeth Adlewyrchu Cymru wrth Rede Cymru. Yn ogystal, cytunais i gadarnhau a ydym wedi derbyn cyngor cyfreithiol ynghylch a oes gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i greu deddfwriaeth sylfaenol i sefydlu system Gymreig o benodiadau cyhoeddus.

Gallaf gadarnhau bod dau arolwg peilot ar amrywiaeth Corff Sector Cyhoeddus wedi'u cynnal gan yr uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn 2023. Roedd y casgliad data yn targedu Cyrff Sector Cyhoeddus neu baneli sydd wedi'u rhestru yn y Gorchymyn yn y Cyngor fel rhai sy'n dilyn y Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus.

Canolbwyntiodd Arolwg 1 ar y dulliau cyfredol y mae sefydliadau'n eu defnyddio i gasglu gwybodaeth am amrywiaeth ar eu haelodau Bwrdd a'u gweithlu ehangach. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau ar a yw sefydliadau'n dal neu'n casglu unrhyw wybodaeth am nodweddion cydraddoldeb gan eu haelodau bwrdd a'u gweithlu, ac os felly, sut mae'r wybodaeth honno'n cael ei chasglu. Canolbwyntiodd yr arolwg ar 11 nodwedd cydraddoldeb, gan gynnwys statws cymdeithasol-economaidd a sgiliau iaith Gymraeg.

Casglodd Arolwg 2 wybodaeth am nodweddion cydraddoldeb aelodau Bwrdd Cyrff Sector Cyhoeddus rheoleiddiedig a Llywodraeth Cymru ei hun. Gofynnodd yr arolwg i aelodau'r Bwrdd am eu nodweddion personol, gan gynnwys y canlynol:

- Ethnigrwydd
- Statws Anabledd
- Oedran
- Rhyw
- Crefydd neu Gred
- Hunaniaeth rywiol

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 03000 257829
Tim.Moss@gov.wales

• Hunaniaeth Rhywedd

Er bod arolwg 1 yn canolbwyntio ar yr 11 nodwedd cydraddoldeb, gan gynnwys statws cymdeithasol-economaidd a sgiliau iaith Gymraeg, roedd penderfyniad ymwybodol ynghylch arolwg 2 i beidio â gofyn am ddata mwy mynychol, er mwyn annog cyfraddau dychwelyd.

Rydym yn cydnabod na chynhwyswyd hyfedredd iaith Gymraeg yn y broses casglu data gwreiddiol.  Ar y pryd, cyfeiriwyd y ffocws tuag at flaenoriaethau penodol gyda'r nod o asesu nodweddion personol allweddol. Fodd bynnag, rydym yn deall bod sgiliau iaith Gymraeg yn agwedd bwysig ar gynrychiolaeth ar ein byrddau.

Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r bwlch hwn a byddwn yn ymgorffori hyfedredd y Gymraeg mewn ymdrechion casglu data ar gyfer aelodau'r bwrdd yn y dyfodol. Yn ogystal, os yw'n ddefnyddiol i'r pwyllgor, rydym yn agored i gynnal arolwg atodol o aelodau'r bwrdd presennol i ddal data sgiliau Cymraeg.

Rydym yn gwerthfawrogi'r adborth hwn fel rhan o'n hymrwymiad i welliant parhaus ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i wella ein dull o ymdrin ag amrywiaeth a chynhwysiant. Wrth i ni symud ymlaen, rydym yn ymroddedig i fyrddau adeiladu sydd nid yn unig yn bodloni gofynion sgiliau ond sydd hefyd yn adlewyrchu amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol Cymru.

Mewn ymateb i'r ymholiad ynghylch a ydym wedi derbyn cyngor cyfreithiol ar fater cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i greu deddfwriaeth sylfaenol i sefydlu system Gymreig o benodiadau cyhoeddus, gallaf gadarnhau nad ydym wedi cymryd unrhyw gyngor cyfreithiol yn hyn o beth.

Gobeithio bod hyn yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor wrth ystyried ei Ymchwiliad i Benodiadau Cyhoeddus.

Yn gywir,



Tim Moss
Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredol
Llywodraeth Cymru
Director General and Chief Operating Officer
Welsh Government

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon